Drwy e-bost

16 Rhagfyr 2020

At bob Canolfan sy'n cynnig, neu'n bwriadu cynnig, cymwysterau Peirianneg Gwasanaethau Adeiladu yng Nghymru o fis Medi 2021.

Mae'r llythyr hwn yn amlinellu'r trefniadau trosiannol ar gyfer dysgwyr a chanolfannau yn ystod y broses o gyflwyno'r cymwysterau Peirianneg Gwasanaethau Adeiladu (CBE) newydd yng Nghymru.

Wrth ystyried y trefniadau trosiannol rydym yn cydnabod yr heriau a'r cryn aflonyddu sy'n parhau i achosi rhwystrau i'r sector addysg a'r sectorau peirianneg gwasanaethau adeiladu yn sgil COVID-19.

Fel rhan o'n hadolygiad o'r trefniadau mwyaf priodol rydym wedi cynnal trafodaethau manwl gyda darparwyr dysgu, cyrff sector a Chonsortiwm y corff dyfarnu, er mwyn deall yn well beth fydd y daith orau i'r rhai a ddechreuodd ddysgu a hyfforddiant mewn addysg bellach (AB) neu ddysgu seiliedig ar waith cyn mis Medi 2021. **I'r rhai sy'n dechrau dysgu a hyfforddiant o fis Medi 2021, ein disgwyliad yw y byddant yn dechrau astudio tuag at y cymwysterau sydd newydd eu cyflwyno.** Ceir rhagor o wybodaeth am y cymwysterau hyn ar wefan Sgiliau i Gymru.

Drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid rydym wedi nodi saith proffil dysgwyr a fydd ran o'r ffordd drwy eu taith ym mis Medi 2021, sef:

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

www.cymwysteraucymru.org

1. Dysgwyr AB sydd wedi cwblhau cymhwyster lefel 1 eang yn haf 2021, fel sgiliau adeiladu lefel 1;
2. Dysgwyr AB a fydd wedi cwblhau cymhwyster lefel 1 crefft-benodol yn haf 2021 sy'n dal i fod mewn addysg bellach amser llawn;
3. Dysgwyr AB a fydd wedi cwblhau cymhwyster lefel 1 crefft-benodol yn haf 2021 sy'n dechrau prentisiaeth;
4. Dysgwyr AB a fydd wedi cwblhau cymhwyster lefel 2 crefft-benodol yn haf 2021 sy'n dechrau prentisiaeth;
5. Dysgwyr AB a fydd wedi cwblhau cymhwyster lefel 2 crefft-benodol yn haf 2021 sy'n dal i fod mewn addysg bellach amser llawn;
6. Dysgwyr AB a fydd wedi cwblhau cymhwyster lefel 3 crefft-benodol yn haf 2021; a
7. Prentisiaid sy'n cwblhau prentisiaeth lefel 2 yn haf 2021 ac sy'n dymuno symud ymlaen i brentisiaeth lefel 3.

Er mwyn cefnogi'r gwahanol ddysgwyr a phrentisiaid hyn byddwn yn parhau i ganiatáu dynodi'r disgrifiadau cymhwyster canlynol (**tan 31 Mai 2022**) ochr yn ochr â'r gyfres newydd o gymwysterau CBE sy'n cael eu datblygu:

- Cymwysterau AB lefel 2 CBE crefft-benodol
- Cymwysterau AB lefel 3 CBE crefft-benodol

Er y byddwn yn caniatáu ymestyn dynodiadau, bydd angen i gyrff dyfarnu ofyn am hyn. Os hoffech gyflwyno'r cymwysterau hyn yn eich canolfan ar gyfer blwyddyn academaidd 2021/22, cysylltwch â'ch corff dyfarnu priodol i ofyn iddynt sicrhau eu bod ar gael i chi. Ceir rhagor o fanylion am bob proffil a'r llwybr dilyniant/pontio gofynnol/awgrymedig yn nhabl A.

Er y bydd y trefniadau trosiannol hyn ar waith ar gyfer mis Medi 2021, hoffem eich atgoffa y bydd yn ofynnol, o fis Medi 2022, i ddysgwyr a phrentisiaid, waeth ble maent o fewn eu taith, ddilyn y cymwysterau newydd sy'n cael eu cyflwyno gan City & Guilds ac EAL, a bwrw bod y grefft y maent yn dysgu/hyfforddi ynddi'n dod o dan y cymwysterau newydd. Rydym yn cynghori canolfannau'n gryf i ystyried hyn ochr yn ochr â'r canllawiau yn nhabl A er mwyn sicrhau bod y llwybr mwyaf priodol i ddysgwyr a phrentisiaid yn cael ei ganfod. Yn y rhan fwyaf o achosion, byddai hynny i'r dysgwr neu'r prentis ddechrau'r cymwysterau newydd o fis Medi 2021, lle bynnag y bo modd.

Ar hyn o bryd mae City & Guilds ac EAL yn ystyried pa Gydnabyddiaeth o Gyrhaeddiad Blaenorol (RPA) a all fod ar waith ar gyfer dysgwyr sy'n symud rhwng cymwysterau etifeddol (cyn 2021) a'r cymwysterau newydd sy'n cael eu cyflwyno.

Byddwn yn cynnal sesiynau Holi ac Ateb rhithiol am 4pm ar 11 Ionawr ac 18 Ionawr i ateb unrhyw gwestiynau neu ymholiadau sydd gennych am y trefniadau hyn. I gael cyflwyniad mwy cyffredinol i'r cymwysterau newydd rydym yn cynnal gweminar am 2pm ar 26 Ionawr.

Rydym yn sylweddoli'r anawsterau y mae'r sector yn eu hwynebu dros y misoedd nesaf ac rydym wedi gwrando ar eich pryderon. Credwn mai'r trefniadau hyn yw'r ffordd orau ymlaen i gefnogi canolfannau a dysgwyr yn y cyfnod digynsail hwn. Diolch am eich cefnogaeth barhaus.

Yn gywir

Philip Blaker
Prif Weithredwr

Tabl A

Proffiliau Dysgwyr Trosiannol

	Proffil	**Canllawiau ar ddilyniant ym mis Medi 2021**
1	Dysgwyr AB sydd wedi cwblhau cymhwyster lefel 1 eang yn haf 2021, fel sgiliau adeiladu lefel 1, sy'n dal i fod mewn addysg bellach llawn amser;	Dylai'r dysgwyr hyn symud ymlaen i'r cymhwyster Sylfaen newydd mewn Peirianneg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2).
2	Dysgwyr AB a fydd wedi cwblhau cymhwyster lefel 1 crefft-benodol yn haf 2021 sy'n dal i fod mewn addysg bellach amser llawn.	Byddai'r dysgwyr hyn yn cael y cyfle i symud ymlaen i'r cymhwyster Sylfaen newydd mewn Peirianneg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2) neu un o'r cymwysterau Dilyniant (Lefel 2). Er ein bod yn annog canolfannau i symud dysgwyr ymlaen i'r cymwysterau newydd, rydym yn caniatáu ymestyn dynodiad y cymwysterau AB lefel 2 crefft-benodol presennol tan 31 Mai 2022.
3	Dysgwyr AB a fydd wedi cwblhau cymhwyster lefel 1 crefft-benodol yn haf 2021 sy'n dechrau prentisiaeth.	Byddai'r dysgwyr hyn yn dechrau'r cymwysterau Adeiladu Lefel 3 neu Beirianneg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 3) newydd.
4	Dysgwyr AB a fydd wedi cwblhau cymhwyster lefel 2 crefft-benodol yn haf 2021 sy'n dechrau prentisiaeth.	Byddai'r dysgwyr hyn yn dechrau'r cymwysterau Adeiladu Lefel 3 neu Beirianneg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 3) newydd.
5	Dysgwyr AB a fydd wedi cwblhau cymhwyster lefel 2 crefft-benodol yn haf 2021 sy'n dal i fod mewn addysg bellach amser llawn.	Byddai'r dysgwyr hyn yn cael cyfle i ymgymryd ag un o'r cymwysterau Dilyniant (Lefel 2) newydd. Ar gyfer y dysgwyr hyn rydym hefyd yn caniatáu ymestyn dynodiad y cymwysterau AB lefel 3 crefft-benodol presennol tan 31 Mai 2022.
6	Dysgwyr AB a fydd wedi cwblhau cymhwyster lefel 3 crefft-benodol yn haf 2021 ac sy'n dymuno dechrau ar brentisiaeth lefel 3.	Byddai'r dysgwyr hyn yn dechrau'r cymwysterau Adeiladu Lefel 3 neu Beirianneg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 3) newydd.
7	Prentisiaid sy'n cwblhau prentisiaeth lefel 2 yn haf 2021 ac sy'n dymuno symud ymlaen i brentisiaeth lefel 3.	Byddai'r dysgwyr hyn yn dechrau'r cymwysterau Adeiladu Lefel 3 neu Beirianneg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 3) newydd.

**Noder: mewn sawl achos yn y tabl uchod, mae City & Guilds ac EAL yn ystyried pa Gydnabyddiaeth o Gyrhaeddiad Blaenorol (RPA) a all fod ar waith ar gyfer dysgwyr sy'n symud rhwng cymwysterau cyn 2021 a'r cymwysterau newydd sy'n cael eu cyflwyno.*